**FFORWM CYNGHORAU CYMUNED A THREF - COFNOD O BENDERFYNIADAU – 26 HYDREF 2020**

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol** – HJ David (Cadeirydd), S Aspey, SE Baldwin, JP Blundell, DK Edwards, R Granville, J Radcliffe, K Rowlands, B Sedgebeer, CE Smith, S Vidal, KJ Watts ac RE Young.

**Cynghorwyr Cymuned a Thref** – S Dendy – Cyngor Cymuned Cwm Garw, D Evans – Cyngor Cymuned Cefn Cribwr, J Pratt – Cyngor Tref Porthcawl a C Reeves – Cyngor Tref Maesteg.

**Swyddogion** – A Boyce, N Bunston, G Lewis, J Jones, J Parsons, A Rees a K Stephens.

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb** – Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**Datgan Buddiannau** – Datganodd y Cynghorydd Dendy fuddiant personol yn eitem 5 ar yr agenda - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr gan ei bod yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Mabwysiadu Ffyrdd** |
| Penderfyniad a Wnaed | 1. Bod Fforwm y Cynghorau Cymuned a Thref wedi nodi'r adroddiad.<br>2. Bod adroddiad pellach ar gynnydd yn cael ei gyflwyno i'r Fforwm unwaith y bydd argymhellion Tasglu Ffyrdd Sydd Heb Eu Mabwysiadu Llywodraeth Cymru ar gael ac a oes adnoddau ar gael gan Lywodraeth Cymru i gefnogi rhaglen ar gyfer mabwysiadu ffyrdd. Os bydd adnoddau ar gael, rhoddir ystyriaeth i weithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref i wella ffyrdd at safon lle bo modd eu mabwysiadu. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Hydref 2020 |
| Teitl yr Adroddiad | **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr** |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod Fforwm y Cynghorau Cymuned a Thref wedi ystyried yr adroddiad a phenderfynu ar gamau gweithredu yn y dyfodol, ac i'r Cynghorau Cymuned a Thref hysbysu'r Rheolwr Partneriaethau a Diogelwch Cymunedol os ydynt yn dymuno enwebu aelodau i'r Is-fwrdd Asedau'r BGC. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Hydref 2020 |
| Teitl yr Adroddiad | **Parod at y Dyfodol - Ymgynghoriad ar y Gyllideb 2020 Ymgysylltu â Chynghorau Cymuned a Thref** |
| Penderfyniad a Wnaed | 1. Bod Fforwm y Cynghorau Cymuned a Thref wedi derbyn ac wedi ystyried yr adroddiad ac wedi ystyried ymgysylltu yn ystod y cyfnod byw.<br>2. Bod Fforwm y Cynghorau Cymuned a Thref wedi nodi cyflwyniad y Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid.<br>3. Dylai'r Bwrdd Digidol ystyried sut y gallai wella cysylltedd digidol â Chynghorau Tref a Chymuned. |
| | 26 Hydref 2020 |